



Polisi Cymwysterau Blaenoriaethol Cyfyngedig

Adroddiad ar Ddadansoddiad o'r Ymgynghoriad

Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701



www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

Cynnwys

| | |
|--------------------------------------|----------|
| Crynodeb Gweithredol | 3 |
| Trosolwg o'r Ymgynghoriad | 5 |
| Dadansoddiad o'r Ymgynghoriad | 6 |

Crynodeb Gweithredol

Diben y Polisi Cymwysterau Blaenoriaethol Cyfyngedig yw rhoi canllawiau i gyrff dyfarnu a phartïon eraill sydd â diddordeb ar y rhesymeg dros gyfyngu ar gymwysterau blaenoriaethol a'r broses o gyfyngu ar gymwysterau. Er mwyn ein helpu i gyflawni ein nodau statudol, caiff Cymwysterau Cymru gyfyngu ar nifer y fersiynau o gymwysterau blaenoriaethol sy'n gymwys ar gyfer rhaglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru.

Gan fod y pŵer i gyfyngu wedi'i roi o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2016, canolbwyntiodd yr ymgynghoriad ynghylch y polisi drafft ar y rhesymeg a'r broses y gall Cymwysterau Cymru eu cymhwysu i ddewis cyfyngu ar gymwysterau blaenoriaethol. Mae'r polisi yn esbonio'n fanylach y ddwy ffordd y gallwn gymhwysu cyfyngiad. Gallwn naill ai gomisiynu un neu fwy o gyrff dyfarnu i ddatblygu cymhwyster newydd, neu gallwn benderfynu pa gymhwyster/cymwysterau i'w gymeradwyo/cymeradwyo o'r rhai a gyflwynwyd i ni gan gyrff dyfarnu.

Gwahoddwyd cyrff dyfarnu ac eraill i gyflwyno sylwadau ar y polisi arfaethedig drwy holiadur ar-lein a oedd ar agor am gyfnod o bum wythnos rhwng 13 Mai a 17 Mehefin 2016. Roedd y ddogfen ymgynghori, gan gynnwys diagramau proses dangosol a'r polisi drafft, ar gael ar wefan Cymwysterau Cymru.

Cawsom gyfanswm o 12 o ymatebion i'r ymgynghoriad, yr anfonwyd 10 ohonynt ar ran sefydliad ac roedd 2 ohonynt yn anghyflawn ac yn ddiennw.

Yn dilyn y sylwadau a gyflwynwyd, gwnaed sawl diwygiad i'r polisi a amlinellir yn yr ymateb i'r ymgynghoriad. Mae'r diwygiadau hyn yn cynnwys eglurhad ynglŷn â'r canlynol:

- Dehongli 'anghysondeb rhwng ffurfiau gwahanol ar yr un cymhwyster'
- Y broses o sicrhau na fydd gwrthwynebiadau i gyfyngiad yn rhagfarnu canlyniad y broses ddethol neu gomisiynu
- Y rhesymeg dros ddefnyddio'r llwybr comisiynu neu'r llwybr dethol;
- Y broses a ddilynir ar ddiwedd cyfyngiad
- Ystyr 'goruchwylio' gwaith y corff a gomisiynwyd
- Y llwybrau ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad dethol neu gomisiynu.
- Y rhoddir digon o amser i baratoi cais;
- Mai dim ond cyrff dyfarnu a ddetholwyd neu a gomisiynwyd fydd yn gallu cynnig cymhwyster cyfyngedig fel rhai "Cymeradwy".
- Croesgyfeiriadau at bolisiau eraill.

Yn ogystal â'r diwygiadau i'r polisi, rydym hefyd wedi ystyried sylwadau sy'n ymwneud â'r broses o gyfyngu ar gymwysterau a sylwadau mwy cyffredinol sydd y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn. Lle y bo'n briodol, nodwyd ymateb yn y dadansoddiad o'r ymgynghoriad. Daeth un ymateb i law ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben nad yw wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad o'r ymgynghoriad. Gan fod yr ymateb hwyr yn cyfeirio at y broses o gyfyngu ar gymwysterau yn hytrach na'r polisi ei hun,

mae'r sylwadau hyn yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r broses o gyfyngu ar gymwysterau.

Trosolwg o'r Ymgynghoriad

Gwahoddodd Cymwysterau Cymru sylwadau cyhoeddus ar y Polisi Cymwysterau Blaenoriaethol Cyfyngedig drafft am gyfnod o bum wythnos rhwng 13 Mai a 17 Mehefin 2016. Gofynnwyd yn benodol am sylwadau ynghylch pa mor dda roedd y polisi drafft yn esbonio'r rhesymeg dros gyfyngu ar gymwysterau blaenoriaethol a'r prosesau cysylltiedig.

Rhoddwyd diagramau proses dangosol a oedd yn dangos y ddau lwybr gwahanol ar gyfer cyfyngu ar gymwysterau blaenoriaethol yn y ddogfen ymgynghori er mwyn helpu pawb i ddeall sut y gall Cymwysterau Cymru gyfyngu ar gymwysterau yn y dyfodol.

Cawsom gyfanswm o 12 o ymatebion i'r ymgynghoriad, yr anfonwyd 10 ohonynt ar ran sefydliad ac roedd 2 ohonynt yn anghyflawn ac yn ddiennw. Mae'r 2 ymateb hynny wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad er mwyn caniatáu ar gyfer y mewnbwn ehangaf posibl. Mae cyfeiriadau IP wedi cael eu gwirio er mwyn osgoi dyblygu ymatebion.

Cyflwynwyd un ymateb yn Gymraeg ac fe'i cyfieithwyd gan ddarparwr cyfieithu dan gontract at ddibenion dadansoddi.

Cyflwynwyd chwe ymateb gan gyrff dyfarnu ac un gan sefydliad aelodaeth sy'n cynrychioli dros 110 o gyrff dyfarnu yn y sector galwedigaethol. Cyflwynwyd tri ymateb gan gynrychiolwyr cyflogwyr, ysgolion a chyrff cyhoeddus eraill.


Ar gyfartaledd, atebwyd y cwestiynau blwch ticio gan tua 90% o ymatebwyr tra cyflwynodd tua hanner yr ymatebwyr sylwadau ychwanegol.

Dadansoddiad o'r Ymgynghoriad

Ar gyfer pob un o gwestiynau'r ymgynghoriad, mae'r dadansoddiad canlynol yn cyflwyno nifer yr ymatebion i bob cwestiwn a chrynodeb o'r ymatebion. Lle y bo'n briodol, nodwyd ymateb, a ddangosir mewn print italig.

Cwestiwn 1: A yw'r polisi'n esbonio pam y byddai Cymwysterau Cymru yn cyfyngu cymwysterau blaenoriaethol?

Cafwyd 12 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, y cyflwynwyd 10 ohonynt ar ran sefydliad a daeth dau o ffynonellau dienw. Cyflwynwyd sylwadau ychwanegol gan chwech o'r ymatebwyr.



Crynodeb o'r adborth

Cododd yr ymatebwyr y pwyntiau allweddol canlynol ynglŷn â chynnwys y polisi:

- Mae'r polisi'n nodi'n glir bod gan Cymwysterau Cymru y pŵer cyfreithiol i gyfyngu ar gymwysterau yng Nghymru.
- Mae'r polisi yn nodi'n glir y sail dros gyfyngu ar gymwysterau blaenoriaethol a'r opsiynau.
- Byddai esboniad llawnach o'r hyn a olygir gan 'osgoi anghysondebau rhwng ffurfiau gwahanol' yn ddefnyddiol.

Mae'r polisi yn cyfeirio at adran 14(4) o'r Ddeddf. Mae'r adran hon yn rhoi'r esboniad y gallai'r ffurfiau gwahanol fod "drwy gyfeirio at y lefel o gyrhaeddiad a nodir gan ffurfiau gwahanol ar yr un cymhwyster, neu fel arall". Cafodd hyn ei ychwanegu at y polisi a chafodd troednodyn ei gynnwys i egluro y gallai'r materion hyn ymwneud â chynnwys neu fethodoleg asesu.

- Byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o wybodaeth am y meini prawf y mae Cymwysterau Cymru yn eu defnyddio fel sail i benderfyniadau ynghylch a yw'n 'fodlon' ei bod yn ddymunol cyfyngu ar gymwysterau blaenoriaethol (pwynt 2 o'r polisi).

Rhoddir enghreifftiau ym mhwynt 4 o'r polisi o'r sefyllfaoedd lle gall Cymwysterau Cymru ystyried cyfyngu ar gymhwyster blaenoriaethol.

- O ystyried yr adnodd canfyddedig y bydd ei angen ar gorff dyfarnu i ddatblygu cymhwyster na chaiff ei ddethol o bosibl wedyn, drwy'r broses ddethol, teimlwyd na fyddai llawer o gyrff dyfarnu yn gallu ymgymryd â hynny oherwydd y goblygiadau ariannol neu na fyddent yn barod i wneud hynny.

Y disgwyl yw, ar gyfer y broses ddethol, y câi cymhwyster sy'n bodoli eisoes ei ystyried, yn hytrach na bod gofyn am i gymhwyster newydd gael ei ddatblygu. Byddwn yn ceisio caniatáu cyfnod cymeradwyo sy'n rhoi digon o amser i gyrff dyfarnu baratoi cais. Diweddarwyd y polisi i adlewyrchu hyn (pwynt 21).

- Ni ddylai'r hyfywedd economaidd i gyrff dyfarnu ddylanwadu ar argaeledd asesu drwy gyfrwng y Gymraeg (fel y'i nodwyd yn yr ail bwynt bwled o bwynt 4 o'r polisi).


Mae Cymwysterau Cymru yn ymrwymedig i hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys drwy argaeledd trefniadau asesu sy'n darparu ar gyfer asesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn wedi'i amlinellu drwy Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 ac mae'r camau y bydd Cymwysterau Cymru yn eu cymryd i gefnogi'r ymrwymiad hwn ar gael ar wefan Cymwysterau Cymru (<http://qualificationswales.org/media/1818/polisi-cymwysterau-rheoleiddiol-cymraeg-a-dwyieithog.pdf>). Fel y nodwyd yn y Polisi Cymwysterau Rheoleiddiol Cymraeg a Dwyieithog, fel arfer byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i gymwysterau cymeradwy fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r ymadrodd 'fel arfer' wedi'i gynnwys oherwydd efallai y bydd nifer fach o gymwysterau cymeradwy na ddylent fod ar gael drwy gyfrwng y ddwy iaith. Er enghraifft, TGAU Cymraeg neu TGAU Saesneg iaith sy'n profi pob iaith yn benodol. Rydym yn ymwybodol bod rhwystrau canfyddedig i gyrff dyfarnu gynnig cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae llawer wedi nodi, fel sefydliadau cystadleuol, fod hyfywedd ariannol darparu cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystyriaeth fawr. Byddwn yn parhau i weithio gyda hwy i ddeall yr heriau ymhellach ac ystyried sut y gellid mynd i'r afael â hwy. Ychwanegwyd cyfeiriad at y polisi Cymwysterau Rheoleiddiol Cymraeg a Dwyieithog at y polisi Cyfyngu (pwynt 32).

- Mae'r polisi yn nodi hyd cyfnod cyfyngiad; byddai'n ddefnyddiol pe bai'r polisi hefyd yn nodi beth fydd y broses, ar ôl cyfnod o hyd at bum mlynedd, pan fydd cymhwyster yn peidio â bod yn un cyfyngedig.

Mae Pwynt 12 o'r polisi wedi'i ddiwygio i amlinellu y bydd Cymwysterau Cymru, o leiaf flwyddyn cyn dyddiad dod i ben cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig, yn adolygu amcanion y penderfyniad cychwynnol ac yn ystyried a ddylid cymhwyso cyfyngiad arall. Os cynigiwn y dylid cymhwyso cyfyngiad arall byddwn yn dilyn y broses a amlinellir ym mharagraffau 6-12 o'r polisi: bydd corff dyfarnu yn cael ei ddewis drwy gystadleuaeth agored, deg a thryloyw unwaith eto.

Cwestiwn 2: A yw'r polisi'n esbonio sut y bydd Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r llwybr comisiynu i gyfyngu cymhwyster blaenoriaethol?

Cafwyd 12 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, yr anfonwyd 10 ohonynt ar ran sefydliad a daeth dau o ffynonellau dienw. Cyflwynwyd sylwadau ychwanegol gan bedwar o'r ymatebwyr.



Crynodeb o'r adborth

Cododd ymatebwyr y pwyntiau allweddol canlynol ynghylch p'un a yw'r polisi yn esbonio sut y caiff y llwybr comisiynu ei ddefnyddio i gyfyngu ar gymhwyster blaenoriaethol:

- Mae angen i'r polisi nodi'n glir pam mai'r llwybr comisiynu fyddai'r llwybr a ffefrir i gyfyngu ar gymwysterau.

Mae'r polisi wedi'i ddiwygio (pwyntiau 14-19) i egluro mai'r llwybr comisiynu sydd fwyaf tebygol o gael ei ddewis lle bo angen datblygu cymhwyster newydd i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru. Mae'r llwybr dethol yn fwy tebygol o gael ei ddewis lle mae nifer o gymwysterau sy'n bodoli eisoes a allai fod yn addas at y diben ond lle mae'n ddymunol gosod cyfyngiad serch hynny.

- Dylid egluro gallu cyrff dyfarnu i apelio yn erbyn canlyniadau'r llwybr a gomisiynwyd neu'i herio'n ffurfiol a'r broses y gallai cyrff dyfarnu ei defnyddio i apelio.

Mae Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016 yn rhoi cyfle i ymgeiswyr aflwyddiannus wneud cais i'r llys i herio dyfarniad y contract(au) os credant

fod y Rheoliadau wedi cael eu torri. Mae'r polisi wedi'i ddiwygio i gynnwys geiriad i'r perwyl hwn (pwyntiau, 15, 16, 22 a 23).

- Dylai'r polisi fod yn glir na fydd unrhyw sylwadau gan gyrff dyfarnu yn effeithio ar eu cyfle i gael eu comisiynu neu eu dethol. Holwyd a fydd timau gwahanol yn ymdrin â sylwadau a'r penderfyniadau dethol/comisiynu.

Mae pwynt 9 o'r polisi yn nodi pan fydd corff dyfarnu wedi gwrthwynebu'r cyfyngiad arfaethedig na fydd hyn yn rhagfarnu canlyniad unrhyw broses gomisiynu neu ddethol ddilynol. Mae'r polisi wedi'i ddiwygio i nodi y bydd Cymwysterau Cymru yn rheoli hyn drwy sicrhau bod dyletswyddau'r staff dan sylw yn cael eu gwahanu.

- Dylid darparu rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r hyn a olygir gan Cymwysterau Cymru yn goruchwyllo gwaith y corff dyfarnu a gomisiynwyd yn fanwl.


Mae'r polisi wedi'i ddiwygio ym mhwynt 15 i egluro y bydd goruchwyliaeth fanwl ar ffurf rheoli contract manwl yn ogystal â bod yn rhan o benderfyniadau allweddol ynglŷn â chynnwys pwnc a methodoleg asesu.

- Dylid egluro a fydd y llwybr dethol hefyd yn cynnwys cyfyngu'r sefydliad dyfarnu i gyflwyno'r cymhwyster neu, pan gaiff y cymhwyster ei ddethol, a fyddai modd i unrhyw gorff dyfarnu gynnig y cymhwyster.

Mae'r polisi wedi'i ddiwygio ym mhwynt 24 i nodi mai dim ond cyrff dyfarnu a ddetholwyd a gaiff gynnig y cymhwyster cyfyngedig, fel un 'Cymeradwy', hyd nes y daw cyfnod y gymeradwyaeth i ben (neu y caiff cymeradwyaeth ei hildio neu ei thynnu'n ôl). Bydd hyn yn destun trefniadau trosiannol ar gyfer cymwysterau etifeddol er mwyn sicrhau na fydd dysgwyr sydd eisoes wedi dechrau cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau etifeddol o dan anfantais annheg.

Cwestiwn 3: A yw'r polisi'n esbonio sut y bydd Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r llwybr dethol i gyfyngu cymhwyster blaenoriaethol?

Cafwyd 12 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, yr anfonwyd 10 ohonynt ar ran sefydliad a daeth dau o ffynonellau dienw. Cyflwynwyd sylwadau ychwanegol gan bedwar o'r ymatebwyr.



Crynodeb o'r adborth

Codwyd y sylwadau canlynol gan ymatebwyr ynghylch p'un a yw'r polisi yn esbonio sut y bydd y llwybr dethol yn cyfyngu ar gymhwyster blaenoriaethol?

- Dylid egluro sut y byddai Cymwysterau Cymru yn penderfynu rhwng dau neu fwy o gyrff dyfarnu sy'n cael yr un marciau ar gam gwerthuso'r broses ddethol.

Bydd y meini prawf ar gyfer gwerthuso ceisiadau yn dryloyw a chânt eu rhoi i gyrff dyfarnu yn y fanyleb ar gyfer paratoi cynigion. Caiff proses lawn y gwerthusiad ei nodi yn y fanyleb.

- Dylid cynnwys gweithdrefn apelio glir, ffurfiol a thryloyw yn y polisi.


Caiff cyrff dyfarnu apelio yn erbyn y penderfyniad dethol drwy ein Polisi Apeliadau Rheoliadol o fewn 20 diwrnod gwaith i hysbysiad o'r penderfyniad. Mae gan gyrff dyfarnu yr hawl hefyd i apelio yn erbyn dirymu neu amrywio penderfyniad i gyfyngu drwy'r Polisi Apeliadau Rheoliadol. Mae'r polisi wedi'i ddiwygio i nodi'r hawl hon i apelio o dan bwyntiau 23 a 31.

- Byddai cynnwys terfynau amser gofynnol yn rhoi sicrwydd i gyrff dyfarnu y byddant yn cael cyfle teg a rhesymol i gymryd rhan mewn unrhyw brosesau dethol yn y dyfodol.

Mae'r polisi wedi'i ddiwygio ym mhwynt 22 i nodi y bydd Cymwysterau Cymru yn ceisio caniatáu cyfnod cymeradwyo sy'n rhoi digon o amser i gyrff dyfarnu baratoi cais.

Cwestiwn 4: A fyddai unrhyw un o'r camau a ddisgrifir yn y polisi'n arwain at unrhyw ganlyniadau (bwriadol neu anfwriadol) o ran cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg?

Cafwyd 9 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, yr anfonwyd 8 ohonynt ar ran sefydliad a daeth 1 ohonynt o ffynhonnell ddienw. Cyflwynwyd sylwadau ychwanegol gan naw o'r ymatebwyr.



Crynodeb o'r adborth

Cododd ymatebwyr y pwyntiau allweddol canlynol ynghylch p'un a fyddai'r polisi ynglŷn â chyfyngiadau yn arwain at unrhyw ganlyniadau o ran cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg:

- Drwy gynnig cymwysterau ac asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'n ddwyieithog, ceir risg y byddai costau cyfieithu ac ymweliadau dilyswyr allanol yn cael eu trosglwyddo i ganolfannau.

Mae Cymwysterau Cymru yn ymwybodol o'r mater hwn. Fel y nodwyd yn y Polisi Cymwysterau Rheoleiddiol Cymraeg a Dwyieithog - Cynllun Gweithredu, rydym yn cynnig rhywfaint o arian grant ar hyn o bryd i helpu cyrff dyfarnu i gyflwyno cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth gyfyngu ar gymwysterau, byddwn bob amser yn ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o ddiwallu anghenion dysgwyr sy'n dymuno sefyll eu cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg a, lle y bo modd, gymryd camau pellach i gefnogi hyn.

- Codwyd pryderon, o ran rhai cymwysterau arbenigol a gaiff eu sefyll gan niferoedd bach, y gallai argaeledd arbenigwyr ar y cynnwys technegol a chyfrwng y Gymraeg fod yn gyfyngedig.

Mae Cymwysterau Cymru yn ymwybodol o'r mater hwn. Fodd bynnag, mae cyfyngu ar gymwysterau yn golygu bod aseswyr cyfrwng Cymraeg yn

canolbwyntio ar un fersiwn yn unig o gymhwyster ac na chaiff adnoddau prin eu rhannu rhwng nifer o fersiynau gwahanol.


- Dylid rhoi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd y Gymraeg a chyfeirio at hynny yn egwyddorion y polisi. Os nad yw'n 'weladwy' yn y polisi gallai hyn arwain at ganlyniad anfwriadol, sef statws anghydradd.

Caiff cyfeiriad ar y Polisi Cymwysterau Rheoleiddiol Cymraeg a Dwyieithog ei gynnwys yn fersiwn terfynol y polisi ynglŷn â chyfyngiadau.

- Mae'r Polisi Cymwysterau Rheoleiddiol Cymraeg a Dwyieithog, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2016, yn egluro'r hyn a ddisgwylir gan gyrff dyfarnu mewn perthynas â'r Gymraeg. Felly, wrth gadw at y polisi hwnnw, mae'n annhebygol y byddai unrhyw gorff dyfarnu sy'n cael ei gomisiynu neu'i ddethol yn gweithredu mewn ffordd sy'n cyfyngu ar gyfleoedd dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg.

Cwestiwn 5: A fyddai unrhyw un o'r camau a ddisgrifir yn y polisi'n arwain at unrhyw ganlyniadau (bwriadol neu anfwriadol) i grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010¹?

Cafwyd 9 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, yr anfonwyd 8 ohonynt ar ran sefydliad a daeth 1 ohonynt o ffynhonnell ddiennw. Cyflwynwyd sylwadau ychwanegol gan chwech o'r ymatebwyr.



Crynodeb o'r adborth

Gwnaed y pwynt canlynol mewn perthynas â'r ffordd y byddai'r polisi ynglŷn â chyfyngiadau yn arwain at ganlyniadau i grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010:


- Dylai Cymwysterau Cymru ystyried cynnwys yr angen i gyrrff dyfarnu gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb i ddysgwyr, fel rhan o feini prawf y cymhwyster.

Caiff hyn ei ystyried fel rhan o'r broses o ddatblygu meini prawf cymwysterau.

¹Y nodweddion gwarchodedig, fel y'u diffiniwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol.

Cwestiwn 6: A oes unrhyw ganlyniadau cadarnhaol a/neu negyddol eraill i unigolion neu sefydliadau a allai ddeillio o'r camau amrywiol a ddisgrifir yn y polisi yr hoffech chi dynnu ein sylw atynt?

Cafwyd 10 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, yr anfonwyd 9 ohonynt ar ran sefydliad a daeth 1 ohonynt o ffynhonnell ddiennw. Gallai ymatebwyr roi tic mewn mwy nag un blwch ar gyfer y cwestiwn hwn. Cyflwynwyd sylwadau ychwanegol gan naw o ymatebwyr.



Crynodeb o'r adborth

Cyflwynodd ymatebwyr y sylwadau allweddol canlynol ynglŷn ag unrhyw ganlyniadau cadarnhaol neu negyddol i unigolion neu sefydliadau a allai ddeillio o'r camau a ddisgrifir yn y polisi:

- Efallai y bydd gallu cyrff dyfarnu sy'n cael eu comisiynu neu eu dethol i ragweld maint eu marchnad ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn gwella, a thrwy hynny byddant yn gallu cynnig rhywfaint o sefydlogrwydd i nifer fach o gyrff dyfarnu mewn marchnadoedd penodol. Gall hyn gael effaith negyddol ar feysydd eraill o'r farchnad gymwysterau yng Nghymru.
- Efallai y bydd lleihau nifer y cyrff dyfarnu (yn enwedig y rhai sy'n arwain at gymhwysedd galwedigaethol neu broffesiynau a reoleiddir) yn sicrhau mwy o gysondeb o ran allbynnau a deilliannau.
- Efallai y bydd mwy o faich ar ganolfannau os bydd yn rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan fwy o gyrff dyfarnu. Efallai y bydd canolfannau yn dewis rhoi'r gorau i gynnig cymwysterau penodol os yw'r rhain ond yn cyfrif am ran fach o'r hyn y maent yn ei gynnig i ddysgwyr. Efallai y bydd sectorau llai, mwy arbenigol ac ehangder y ddarpariaeth yn dioddef.

Bydd Cymwysterau Cymru yn gosod gofyniad ar gyrff dyfarnu sy'n cael eu dethol neu eu comisiynu i ddatblygu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu i ganolfannau a fydd yn cynnwys rhoi adnoddau ac, yn benodol, gymorth i ganolfannau. Byddwn yn disgwyl i gyrff dyfarnu nodi sut y byddant yn rhoi cymorth i bob canolfan a tharfu cyn lleied â phosibl ar y canolfannau y mae angen iddynt newid y corff dyfarnu y maent yn gweithio gydag ef.

- Efallai y bydd y broses ymgeisio yn ffafrio corff dyfarnu mwy o faint sydd â'r adnoddau i fuddsoddi mewn hyfforddi staff a pharatoi ceisiadau.

Mae Cymwysterau Cymru yn bwriadu ymgysylltu â chyrrff dyfarnu ymhellach ynglŷn â'r broses ymgeisio ar gyfer cyfyngu ar gymwysterau, gan gynnwys y posibilrwydd o gyrff dyfarnu yn cyflwyno ceisiadau ar y cyd er mwyn gwrthsefyll unrhyw effeithiau negyddol posibl ar adnoddau cyrrff dyfarnu. Mae Cymwysterau Cymru wedi mabwysiadu Polisi Caffael Cymru ac wedi ymgorffori prosesau sydd â'r nod o ddefnyddio prosesau sy'n ystyriol o BbChau (busnesau bach a chanolig).

- Mae risg o ganfyddiad negyddol ymhlith cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â chymwysterau etifeddol a enillwyd gan ddysgwyr cyn cyflwyno cyfyngiad. Mae angen ystyried negeseua ynglŷn â'r hyn y bydd cyfyngiad yn ei olygu o ran cymwysterau etifeddol fel na fydd dysgwyr o dan anfantais.

Mae pwyntiau 18, 28 a 29 o'r polisi yn nodi y bydd trefniadau trosiannol ar gyfer cymwysterau etifeddol er mwyn sicrhau na fydd dysgwyr sydd eisoes wedi dechrau cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau etifeddol o dan anfantais annheg. Bydd Cymwysterau Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu a gomisiynwyd neu a detholwyd ddatblygu a gweithredu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol i ddysgwyr a rhanddeiliaid eraill.

- Mewn ymateb i allu Cymwysterau Cymru i ddirymu neu amrywio'r penderfyniad i gyfyngu, dylai fod camau diogelu i gyflenwyr megis cyfnod rhybudd i'r rhai sydd wedi gweithredu'n ddiwyll.

Mae pwynt 30 o'r polisi yn nodi'r camau i'w cymryd os bydd Cymwysterau Cymru yn penderfynu dirymu neu amrywio penderfyniad lle mae amcanion y penderfyniad wedi newid neu nad ydynt yn cael eu cyflawni. Bydd hyn yn cynnwys hysbysu pob corff cydnabyddedig, ac unrhyw bartion eraill y mae Cymwysterau Cymru o'r farn y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt fod â diddordeb yn y penderfyniad arfaethedig, am y cynnig (gan gynnwys y rhesymeg dros y cynnig), ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd iddo gan y personau hynny mewn perthynas â'r cynnig a chyhoeddi penderfyniad. Mae'r polisi wedi'i ddiwygio i gynnwys o dan bwynt 31 hawl i gyrff dyfarnu apelio yn erbyn penderfyniad i ddirymu neu amrywio drwy ein Polisi Apeliadau Rheoliadol o fewn 20 diwrnod gwaith i hysbysiad o'r penderfyniad.

Cwestiwn 7: Os oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar gynnwys y polisi

Cyflwynwyd sylwadau i'r cwestiwn hwn gan bum ymatebwr.

Crynodeb o'r adborth

Cododd yr ymatebwyr y pwyntiau allweddol canlynol ynglŷn â chynnwys y polisi:

- Dylai'r broses o ddatblygu meini prawf cymeradwyo gynnwys cyflenwr ar gam cynnar yn y broses yn ogystal ag arbenigwyr a rhanddeiliaid.

Rydym yn cytuno bod arbenigwyr a rhanddeiliaid yn allweddol i'r broses o ddatblygu meini prawf cymeradwyo. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ein prosesau lle y byddwn yn ymgynghori â rhanddeiliaid cyn i'r contract gael ei ddyfarnu. Er mwyn adlewyrchu prosesau caffael teg a sicrhau nad oes unrhyw fantais benodol, ni fydd cyrff dyfarnu a gomisiynwyd yn cymryd rhan tan ar ôl i'r contract gael ei ddyfarnu.

- Awgrymwyd bod Cymwysterau Cymru yn penodi dau neu dri o gyrff dyfarnu a all ddatblygu cymwysterau ar y cyd.

Fel y nodwyd yn yr egwyddorion cyffredinol a phwynt 5 o'r polisi, Cymwysterau Cymru fydd yn penderfynu ar nifer y ffurfiau ar y cymhwyster y dylid cyfyngu arnynt. Bydd y broses yn egluro y gall cyrff dyfarnu hefyd gyflwyno ceisiadau ar y cyd.

- Gallai cyrff dyfarnu llai o faint gael eu hatal rhag cefnogi dysgwyr yng Nghymru gan y bydd y broses gaffael yn ffafrio'r cyrff dyfarnu mwy o faint.

Fel yr amlinellwyd ym mhwynt 22 o'r polisi, bydd Cymwysterau Cymru yn arfer ei swyddogaethau yn unol â'r cynllun a chan gymhwyso egwyddorion tryloywder, dim gwahaniaethu, triniaeth gyfartal a chymesuredd. Byddwn yn ceisio caniatáu cyfnod cymeradwyo sy'n rhoi digon o amser i gyrff dyfarnu baratoi cais.
Mae Cymwysterau Cymru wedi mabwysiadu Polisi Caffael Cymru ac wedi ymgorffori prosesau sydd â'r nod o ddefnyddio prosesau sy'n ystyriol o BbChau (busnesau bach a chanolig).

Sylwadau Eraill

Yn ogystal, codwyd nifer o bwyntiau eraill nad oeddent o fewn cwmpas yr ymgynghoriad. Fe'u hamlinellir yn gryno isod:

Y pŵer i gyfyngu (ystyriwyd hyn yn yr ymgynghoriad ynghylch Deddf Cymwysterau Cymru 015)

- Byddai cyfyngiadau yn effeithio ar ddewis i ddefnyddwyr.
- Byddai mwy o risg y bydd darparwr unigol yn methu â chyflawni ansawdd na chyrraedd safonau.
- Bydd y pŵer i gyfyngu yn rhoi canolfannau a marchnad ehangach y cyrff dyfarnu o dan anfantais.
- Gallai cyfyngu ar y farchnad beri i gyflogwyr/darparwyr, yn enwedig y rhai sy'n gweithredu dros ffiniau, ffafrio a chyflwyno darpariaeth heb ei rheoleiddio.
- Gall diffyg cystadleuaeth rhwng cyrff dyfarnu beri i safonau ostwng.
- Mae posibilrwydd y bydd swm mawr o arian Llywodraeth Cymru yn cael ei wario yn Lloegr os caiff contractau eu dyfarnu'n gyson i gyrrff dyfarnu'r DU.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol (caiff ymgynghoriad ar wahân ei gynnal i drafod cyfyngiadau posibl ar rai cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol a chaiff y pwyntiau hyn eu hystyried)

- Pryder y gellir colli'r arbenigedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a geir yng Nghymru ar hyn o bryd.
- Pryder y dylai gwybodaeth ac arbenigedd cyrff dyfarnu fod yn rhan o'r meini prawf dethol yn ogystal â phrofiad.
- Y risgiau y bydd gostyngiad mewn symudedd cymdeithasol a chcludadwyedd, gan gynnwys yr effaith ar gyflogwyr trawsffiniol.

Proses Ymgynghori Cymwysterau Cymru (caiff adborth a gyflwynwyd ei ystyried wrth ddatblygu'r canllaw mewnol ar ymgynghori)

- Dylai cyfnod ymgynghori fod yn fwy na phum wythnos.
- Dylai fersiynau Word o'r ffurflen ymgynghori fod ar gael.
- Dylai cyflwyniadau mewn ymateb i ymgynghoriad gael eu derbyn drwy Word a Survey Monkey.

Cymwysterau Cymraeg a Dwyieithog- (bydd adborth a gyflwynwyd yn llywio'r adolygiad nesaf o'r Polisi Cymwysterau Rheoleiddiol Cymraeg a Dwyieithog ym mis Tachwedd)

- Ymholiadau penodol ynglŷn â geiriad y polisi.